# PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2025

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**<br><br>Y Cynghorydd Margaret M Roberts (Cadeirydd)<br><br>**Aelod Annibynnol**<br><br>Dr Teleri M Jones |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (GPW)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Dylan Rees<br>Mrs Ann Kennedy (Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Penderfynu o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**3 PENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro ar y broses gyfweld ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer er mwyn penodi ar gyfer y sedd wag fel aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

Yn dilyn cyfarfod y Panel Dethol ar 21 Hydref 2025, lluniodd y Panel restr fer o ymgeiswyr ar gyfer eu cyfweld. Ystyriwyd yr ymgeiswyr yn erbyn y meini prawf a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Nodwyd fod y Panel wedi cynnal cyfweliadau ar gyfer yr ymgeiswyr ar y rhestr fer ar 6 Tachwedd. Roedd y Panel wedi cytuno dod at ei gilydd eto a chynnal

cyfweliadau, fel rhan o gyfarfod heddiw, ar gyfer y rhai hynny nad oeddent yn gallu mynychu cyfweliadau ar y 6ed.

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd i'r cyfarfod a chyflwyno'r Panel. Rhoddodd drosolwg i'r unigolion o rôl aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau ac eglurodd y broses benodi.

Cynhaliodd y Panel gyfweliadau ac yna cynhaliwyd trafodaeth er mwyn gallu dod i benderfyniad ar benodiad.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Bod y Panel yn dewis un ymgeisydd i'w henwebu ar gyfer eu penodi ar y Pwyllgor Safonau.**
- **Bod Cadeirydd y Panel yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor Llawn ar y cyfle cyntaf posibl gan enwebu'r ymgeisydd llwyddiannus (yn amodol ar dystlythyrau boddhaol).**
- **Bod Cadeirydd y Panel yn argymell i'r Cyngor Llawn bod yr ymgeisydd sy'n dod yn ail yn y cyfweliadau (cyntaf wrth gefn) ac yn drydydd (ail wrth gefn) yn cael eu penodi yn awtomatig i unrhyw swydd wag sy'n codi ar gyfer aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau petai cyfle o'r fath yn codi o fewn deuddeg mis nesaf (yn amodol ar dystlythyrau boddhaol a chytundeb yr ymgeiswyr).**

Daeth y cyfarfod i ben am 3:45 pm

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS**
**CADEIRYDD**